Cwis Diogelwch ar y Ffyrdd

Cyfnod Allweddol 2

1. Pa liw fydd yn helpu pobl eraill i'ch gweld chi yn ystod y dydd?

A. Tywyll
B. Adlewyrchol
C. Fflworoleuol

2. Beth mae arwyddion ffyrdd siâp triongl yn ei wneud?

A. Rhoi rhybuddion
B. Rhoi gorchmynion
C. Rhoi gwybodaeth

3. Ar groesfan Pelican, beth yw ystyr y dyn gwyrdd sy'n fflachio?

A. Croeswch y ffordd, gyda gofal
B. Peidiwch â chroesi'r ffordd
C. Croeswch y ffordd

4. Pryd mae'n ddiogel croesi wrth groesfan Sebra?

A. Pan mae'r traffig wedi dod i stop ar un ochr y ffordd
B. Pan mae'r traffig wedi arafu ar ddwy ochr y ffordd
C. Pan mae'r traffig wedi dod i stop ar ddwy ochr y ffordd

5. Pa un o'r rhain yw'r lle MWYAF DIOGEL i groesi'r ffordd?

A. Ar ben bryn
B. Ar ffordd glir a syth
C. Rhwng ceir sydd wedi parcio

6. Beth yw ystyr yr arwydd hwn?

A. Dim mynediad i gerbydau
B. Dim ffordd drwodd
C. Dim parcio

7. Wrth feicio, pryd dylech chi ddefnyddio'ch cloch?

A. I ddangos eich hun
B. I rybuddio pobl eich bod gerllaw
C. Pan fyddwch yn gweld rhywun rydych yn ei adnabod

8. Pa ochr ddylech chi fynd allan o'r car?

A. Yr ochr sydd agosaf atoch chi
B. Ar ochr y palmant
C. Ar ochr y ffordd

9. Beth yw ystyr yr arwydd hwn?

A. Dim beicio
B. Llwybr beicio
C. Rhybudd: beicwyr ar y ffordd

10. Pan fyddwch eisiau croesi'r ffordd, beth ddylech wneud bob tro?

A. Hopio, sgipio, neidio
B. Aros, siarad, rhedeg
C. Aros, edrych, gwrando

Gwiriwch eich atebion yn erbyn y daflen atebion. Pa mor dda wnaethoch chi?

Gofynnwch i eraill yn eich cartref gymryd y cwis a gweld pwy sy'n cael y sgôr uchaf!